**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ann Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog

5 Awst 2020

Annwyl Ann,

Ysgrifennaf i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf, yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 3 Gorffennaf.

Rydych yn nodi nifer o gwestiynau ychwanegol gan y Pwyllgor, ac yr wyf yn falch o'u hateb isod:

**1. Ac ystyried graddfa a hyd a lled effaith Covid-19 ar economi Cymru, a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu dull sectoraidd o benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer cyllid cyhoeddus yn y dyfodol?**

Wrth bennu unrhyw ddyraniad cyllid yn y dyfodol, byddwn yn parhau i asesu tystiolaeth o'r effeithiau ar draws economi Cymru a'r farchnad lafur. Mae'r camau rydym eisoes wedi'u cymryd wedi ymateb i dystiolaeth bod argyfwng Covid-19 wedi cael effeithiau niweidiol iawn ar draws pob rhan bron o economi Cymru.

Yn benodol, mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud a newidiadau cysylltiedig ym mhatrymau ymddygiad defnyddwyr a busnesau wedi cael effaith ddofn iawn ar draws y rhan fwyaf o sectorau. Er bod maint yr effaith hyd yma wedi amrywio, gyda'r sector lletygarwch, er enghraifft, yn dioddef yn arbennig o ddrwg, mae'r patrwm yn debygol o amrywio dros amser a bydd hynny'n dibynnu ar esblygiad y pandemig yn y dyfodol; ar y ffyrdd y mae modd dileu neu leihau cyfyngiadau; ac ar ymatebion busnesau a defnyddwyr.

Oherwydd natur draws-sector yr effeithiau economaidd, mae prif ffocws dull gweithredu Llywodraeth Cymru wedi bod ar yr economi gyfan. Ar yr un pryd, rhoddwyd sylw i anghenion sector-benodol lle bu achos cryf o blaid cefnogaeth sector-benodol, megis ar gyfer diwydiannau celfyddydol a diwylliannol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd wedi galw'n barhaus ar Lywodraeth y DU i roi cynlluniau diogelu cyflogaeth sectoraidd ar waith ar gyfer sectorau sy'n dal ar gau neu sy'n dioddef yn sylweddol iawn oherwydd mesurau Covid-19, fel twristiaeth, awyrofod, modurol a dur.

Nid dim ond effeithiau'r pandemig fydd yn dylanwadu ar ragolygon economaidd Cymru. Mae'r ansicrwydd a'r risgiau difrifol sy'n cael eu creu wrth i'r DU ymgymryd â chysylltiadau masnachu newydd ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd hefyd yn dylanwadu ar y rhagolygon economaidd.

Ochr yn ochr ag unrhyw effeithiau sectoraidd, rydym hefyd yn ystyried effeithiau anghymesur a negyddol yn y farchnad lafur ar bobl a oedd eisoes o dan anfantais, yn enwedig y rheini sydd â sgiliau gwael, sydd mewn swyddi cyflog isel ac ansicr a phobl sâl ac anabl, ac ar y rheini sy'n ymuno â'r farchnad lafur am y tro cyntaf. Bydd angen i benderfyniadau cyllido yn y dyfodol ystyried yn ofalus sut y gellir lliniaru'r effeithiau hyn.

Felly, bydd blaenoriaethau ar gyfer cyllid cyhoeddus yn y dyfodol yn cael eu pennu drwy asesiad o ble y gellir creu'r effaith fwyaf yn y tymor hir. Bydd hyn yn cyd-fynd â gwerthoedd ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys twf gwyrdd a ffyniant cynhwysol, yn hytrach na dull gweithredu sy'n cael ei lywio gan sectorau. Bydd yn cynnwys ystyried y math o gefnogaeth ochr yn ochr ag unrhyw amodau a roddir ar gyllid cyhoeddus i gyflawni'r amcanion ehangach hyn.

**2. Yng ngoleuni'r sylwadau a wnaethoch am yr heriau i Lywodraeth Cymru o ran cefnogi pob rhan o sector y celfyddydau a diwylliant, sut y gwneir penderfyniadau ynghylch cynlluniau wrth gefn a blaenoriaethu?**

Ar 30 Mehefin fe wnaethom gyhoeddi cronfa £53m i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ddelio ag effaith pandemig y coronafeirws.
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cronfa-adferiad-diwylliannol

Bwriad y gronfa yw darparu cefnogaeth hanfodol i theatrau, orielau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, orielau, gwasanaethau archifau, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol sydd i gyd wedi gweld colled ddramatig yn eu refeniw oherwydd y pandemig. Bydd y cyllid yn cefnogi sefydliadau ac unigolion yn y sector.

Bydd y gronfa'n cael ei darparu ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru ac mae "contract diwylliannol" yn elfen ganolog ohoni i helpu'r sector i ddod allan o'r pandemig yn gryfach nag erioed. Bydd y pecyn hwn yn helpu i gefnogi llawer yn y sectorau i ymateb i'r pwysau a'r heriau y mae coronafirws wedi'u gosod arnynt. Mae hefyd yn gyfle unigryw i gyflawni newid sylweddol - byddwn yn datblygu contract diwylliannol fel y gall y sector ddod yn ôl yn gryfach. Byddai hyn yn sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn ymrwymo i sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio gyda phwrpas cymdeithasol cadarnhaol, wedi'i dargedu.

Mae'r pecyn ariannu yn werth £53m i gyd yn 2020-21, sy'n cynnwys £50m o refeniw a £3m o gyfalaf. Cyhoeddir rhagor o fanylion, gan gynnwys canllawiau i ymgeiswyr, yn ddiweddarach ym mis Awst.

Daw'r cyhoeddiad ar ben y pecyn portffolio gwerth £18m a ddarparwyd ym mis Ebrill, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru.

Rydym wedi gwrando ac wedi gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau diwylliannol a chreadigol i roi'r ail becyn cymorth hwn at ei gilydd. Hoffem gofnodi ein diolch am weithio'n

adeiladol gyda ni i ddarparu'r gefnogaeth hon. Rydym yn cydnabod yr heriau enfawr a digyffelyb y mae'r pandemig yn eu hachosi i wead bywyd Cymru ac rydym yn cymeradwyo'r cadernid a'r creadigrwydd sy'n cael eu dangos.

**3. A allech roi manylion pellach am y trafodaethau y cyfeiriasoch atynt ynghylch y posibilrwydd o ymestyn y tymor lletygarwch i'r busnesau hynny y byddai eu cyfyngiadau trwyddedu fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gau am ran o'r flwyddyn?**

Cafodd yr awgrym o ymestyn trwyddedau safleoedd carafanau ledled Cymru dros dro fel y gall parciau gwyliau wneud iawn am golli refeniw a pharhau i weithredu dros gyfnod gaeaf 2020/21 ei wneud gan nifer o'n rhanddeiliaid twristiaeth.

Yn dilyn trafodaethau manwl gyda chynrychiolwyr y diwydiant a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae'r Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at CLlLC i gefnogi cynigion i ymestyn y tymor ac mae cynrychiolwyr CLlLC yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu canllawiau i gefnogi hynny.

**4. A wnewch chi roi ystyriaeth bellach i ddatblygu cynllun tymor hir ar gyfer adfer y sector hamdden a thwristiaeth?**

Rydym yn cydnabod bod rhai cyfyngiadau ar waith o hyd i'r sectorau hyn ynghyd â'r angen i gydymffurfio â chanllawiau agor diogel.

Er bod y cynlluniau cenedlaethol a gyflwynwyd drwy Lywodraeth y DU wedi darparu cymorth hanfodol yn ystod y cyfnod hwn, mae gallu Llywodraeth Cymru i gynnig cymorth ariannol ychwanegol wedi galluogi busnesau Cymru i elwa ar lefel llawer uwch o'i chymharu â rhanbarthau eraill y DU. Yn wir, roedd nifer y busnesau twristiaeth sy'n elwa o gefnogaeth gan y llywodraeth, sy'n cynnwys cynlluniau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn 14% yn Lloegr a 34% yng Nghymru.

Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod cymaint o arian â phosibl ar gael i gefnogi ein busnesau ar ddechrau'r argyfwng hwn, ac wrth wneud hynny mae'r Gronfa Cymorth Economaidd gwerth £500m eisoes wedi cefnogi dros **9,000** o fusnesau yng Nghymru, gan eu helpu i ddiogelu tua **75,000** o swyddi.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i asesu'r angen a mesur maint yr angen hwnnw ar draws ein sectorau. Rydym eisiau datblygu cynllun sy'n gweithio i sefydliadau ac unigolion. Bydd angen i'r cynllun gefnogi'r anghenion ar draws y sector ehangach, gan adlewyrchu cwmpas cynlluniau Llywodraeth y DU.

Byddwn yn ceisio targedu gweddill y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) i gefnogi busnesau sy'n dechrau ailadeiladu a dychwelyd yn araf at amodau masnachu cyn-Covid.

Yn y tymor byr rydym yn ceisio ail-lansio Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru ac rydym eisoes yn cynnal trafodaethau cadarnhaol gyda nifer o fusnesau sy'n chwilio am fuddsoddiad.

Yn y tymor canolig i hir, mae'n debygol y bydd y sector bancio yn mabwysiadu safbwynt llawer mwy gofalus o ran benthyca a, lle mae bylchau yn y farchnad, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Banc Datblygu Cymru i ddatblygu atebion cyllido a fydd yn cefnogi cynigion busnes o ansawdd da.

Afraid dweud nad yw hwn yn gyfnod arferol ac rydym yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid i archwilio atebion cyllido newydd ac arloesol a allai helpu i drawsnewid y sectorau i symud ymlaen. Mae'r argyfwng hwn wedi dangos mai dyma'r sectorau lleiaf gwydn, wrth wynebu sioc economaidd fyd-eang, yn bennaf oherwydd natur dymhorol y busnes a rhaid i hyn sbarduno ymhellach ein hymrwymiad i ganfod arferion newydd ac arloesol, er mwyn helpu i leihau'r duedd i fod yn agored i niwed yn y dyfodol.

Wrth i'r gwaith hwn barhau, rydym hefyd yn pwyso ar Lywodraeth y DU i ddarparu cymorth ariannol parhaus i'r sectorau sydd wedi'u taro waethaf ac a fydd yn olaf i ddod drwy'r adferiad, yn enwedig wrth i gyfnod nesaf y gaeaf gyrraedd. Er bod croeso i'r gostyngiad mewn TAW a'r cynlluniau Estyn Llaw drwy Fwyta Allan, rydym yn dal o'r farn bod y cynllun Ffyrlo wedi bod yn amhrisiadwy o ran lleihau nifer y swyddi a gollir ac rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ystyried ei ymestyn i'r sectorau hynny y mae'r pandemig yn effeithio fwyaf arnynt, gan gynnwys Twristiaeth, lletygarwch a digwyddiadau.

**5. Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r materion cyllido sy'n debygol o godi i lywodraeth leol yng Nghymru yn ystod chwarter olaf blwyddyn ariannol 2020/21, ac yn 2021/22?**

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Trysoryddion Cymru i ddeall effaith y pandemig ar sefyllfa ariannol awdurdodau lleol. Mae'r pandemig yn cael effaith mewn nifer o feysydd – costau ychwanegol, colli incwm, cynyddu cymhwysedd ar gyfer cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, cyfraddau casglu'r dreth gyngor a gallu awdurdodau i gyflawni cynlluniau lleihau costau y cyllidebwyd ar eu cyfer. Yn ddiweddar, mae CLlLC wedi asesu'r effaith ar ail chwarter y flwyddyn ac wedi darparu nifer o senarios ar gyfer gweddill y flwyddyn a 2021-22.

Mae'r effaith ariannol yn dibynnu ar amryw o bethau, gan gynnwys pa mor gyffredin yw'r clefyd ac a oes ail don; pa mor fuan y gall gwasanaethau sy'n cynhyrchu incwm ailagor; hyder y cyhoedd a pha mor gyflym y bydd incwm yn dychwelyd; a sut y bydd yr economi'n gwella a'r effaith ar y galw am wasanaethau. Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am ddigon o gyllid i gynnal gwasanaethau yng Nghymru ac ar iddi roi hyblygrwydd inni o ran cyllidebau i sicrhau bod cymaint â phosibl o adnoddau ar gael inni. Rydym hefyd yn disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddynt megis rheoli cronfeydd wrth gefn a benthyca ochr yn ochr â'r cymorth ariannol y gall Llywodraeth Cymru ei roi.

**6. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio ar draws gwasanaethau a rhyngddynt - yn cynnwys gweithio gyda'r sectorau preifat a gwirfoddol - sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr argyfwng presennol, yn dod yn rhan annatod o'r drefn arferol? Ac yn benodol, sut y gellir cyflawni hyn o ran y ffordd y darperir gwasanaethau gofal yng Nghymru yn y dyfodol?**

Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, partneriaid gwasanaethau cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat i gyd wedi ymateb i'r heriau a gyflwynir gan bandemig Covid-19 hyd eithaf eu gallu. Gyda'n gilydd, rydym wedi datblygu dulliau ac atebion arloesol a hyblyg mewn ymgais i amddiffyn dinasyddion a darparu gwasanaethau brys, yn enwedig i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Mae hyn yn seiliedig ar y traddodiadau hirsefydlog a'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae llawer o hyn yn deillio o'r egwyddor y dylai'r rhai y mae penderfyniadau neu bolisïau yn effeithio arnynt fod â rhan yn y gwaith o'u datblygu, gan gydnabod gwerth datblygu atebion ar y cyd i heriau a rennir.

Mae gan Gymru seilwaith sefydliadol sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a'r Cyngor Datblygu Economaidd sy'n canolbwyntio ar y sectorau cyhoeddus a phreifat, y naill a'r llall. Yn fwy diweddar, sefydlwyd Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol cysgodol trosfwaol.

Ochr yn ochr â'r mecanweithiau sefydliadol ffurfiol hyn mae'r cysylltiadau, y rhwydweithiau a'r rhyngweithio rhwng y Llywodraeth a phartneriaid cymdeithasol ar lefel swyddogion a Gweinidogion. Mae'r rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol hyn eisoes wedi cael eu defnyddio'n dda i ddatblygu ymatebion i Covid-19 ac i lywio ein dull gweithredu tymor hwy ar ôl Covid.

***Gofal Cymdeithasol***

Mae'r Is-grŵp Gofal Cymdeithasol - Cynllunio ac Ymateb sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr, y trydydd sector, awdurdodau lleol, swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn a CLILC, wedi cwrdd bob wythnos i arwain a chefnogi'r ymateb Covid 19 ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae darparwyr o bob rhan o'r sector hefyd wedi chwarae rhan allweddol yn yr amrywiol ffrydiau gwaith rydym wedi'u datblygu i gefnogi ein hymateb.

Byddwn yn ceisio adeiladu ar y cydweithio hwnnw wrth inni symud i'n camau adfer a sicrhau na chollir yr arferion gweithio newydd a chadarnhaol.

Yn ddiweddar, cynhaliodd darparwyr Gofal Cymdeithasol ddadansoddiad SWOT ar y cyd o'r ymateb i Covid-19 yng Nghymru, gan nodi rhai meysydd cryfder allweddol y byddwn yn ceisio adeiladu arnynt drwy'r cyfnod adfer ac ailadeiladu.

Yn benodol, roeddent yn teimlo bod sefydliadau wedi cyfathrebu'n dda â'i gilydd i ddatblygu dulliau gweithredu ar y cyd. Er enghraifft, defnyddio grwpiau WhatsApp i rannu heriau a phryderon.

Teimlwyd bod parodrwydd cartrefi gofal i fod yn agored a rhannu gwybodaeth ymysg ei gilydd, er enghraifft, peidio â bod ofn dweud bod ganddynt broblem megis symptomau, wedi bod o gymorth mawr i'r wlad gyfan. Nid yn unig i leihau lledaeniad y firws, ond i feddwl am syniadau cadarnhaol a'u rhannu.

***Adferiad y sectorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol***

I gefnogi ein gwaith ein hunain a sicrhau ein bod yn gallu cadw ffocws clir a chyson ar flaenoriaethau adfer gofal cymdeithasol, byddwn yn creu **Bwrdd Sefydlogi ac Ailadeiladu Gofal Cymdeithasol**, sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys ADSS Cymru, AGC, GCC, CLILC, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Gofalwyr Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, CGGC, academyddion, rhanddeiliaid eraill a phartneriaid yn y trydydd sector fel y cynghorir. Bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau cydweithio a chydgynhyrchu gwirioneddol gyda'r sector wrth ddatblygu'r Fframwaith Sefydlogi ac Ailadeiladu Gofal Cymdeithasol, sef y prif gynnyrch y gofynnir i'r Bwrdd ei ddatblygu.

Bydd angen i'r Bwrdd ystyried sut mae'r fframwaith yn cyd-fynd â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth a chanllawiau. Bydd hefyd yn ceisio adeiladu ar y dysgu a'r newidiadau cadarnhaol a gafwyd yn ystod yr ymateb i Covid-19 er mwyn i ni allu 'cynnal yr enillion'. Yn

benodol, bydd hyn yn canolbwyntio ar ble mae cydweithio a rhannu ar draws sectorau wedi ychwanegu gwir fudd a gwerth.

Yn yr un modd, bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn chwarae rhan allweddol yn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r adferiad ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae'n hanfodol bod y ffyrdd newydd o weithio sydd wedi ein galluogi i gydweithio cystal ac wedi ein helpu i gydymroi yn parhau er mwyn i ni allu ymateb yn gyflym lle bo angen.

Mae'n amlwg bod gofal cymdeithasol wedi gweithredu'n gyflym yn ystod Covid-19 ac wedi dangos gwir arloesedd ac ystwythder yn ei ymateb i'r argyfwng. Dim ond dechrau dysgu'r gwersi o hyn yr ydym, ond byddant yn cael eu casglu'n rheolaidd o'r sector i sicrhau, lle mae arloesi ac arferion gorau wedi dod i'r amlwg, bod hyn yn cael ei gofnodi a'i ymgorffori yn ein gwaith cynllunio ar gyfer sefydlogi ac ailadeiladu gofal cymdeithasol. Bydd dadansoddiad cychwynnol o'r gwersi cynnar hyn ar gael ddechrau mis Medi. Bydd hwn yn ddarn parhaus o waith a bydd y gwersi a ddysgir yn parhau i gael eu casglu o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Rydym hefyd wedi comisiynu **adolygiad cyflym** o brofiad gweithredol cartrefi gofal yn ystod y pandemig, sy'n cael ei hwyluso gan arbenigwr annibynnol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi gofyn i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd bwyso a mesur eu profiadau ac ystyried eu hymateb i gefnogi cartrefi gofal yn ystod y pandemig. Bydd eu dadansoddiad nhw, ynghyd â mewnbwn a chyfweliadau gyda sefydliadau allweddol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Fforwm Gofal Cymru, yn galluogi Llywodraeth Cymru i:

- deall beth y gellid ei wella ar gyfer y dyfodol o ran cymorth awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gartrefi gofal yng Nghymru;
- nodi ac ymateb i faterion sydd heb eu datrys, atgyfnerthu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer unrhyw don o Covid-19 yn y dyfodol a rhoi mesurau ar waith i helpu i liniaru'r risg o waethygu'r straen ar wasanaethau sydd eisoes yn fregus;
- deall yr arferion da a weithiodd yn dda a pham, a sut y gellir eu sefydlu ar raddfa ehangach ar draws Cymru.

Bydd y gwaith hwn, sy'n cynnwys saith cynllun gweithredu rhanbarthol ac adroddiad cenedlaethol, yn cael ei gwblhau ym mis Medi, mewn pryd i gofnodi a gweithredu unrhyw ddysgu cyn ail don bosibl yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**